# Cyflwyniad i Bwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y Cynulliad Cenedlaethol

Tystiolaeth y BBC i'r ymchwiliad i Adolygiad Siartr y BBC

Tachwedd 2015

## Cyflwyniad

Rydym yn falch o gyflwyno'r papur tystiolaeth hwn i Ymchwiliad Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Adolygiad Siartr y BBC.

Mae'r BBC yn chwarae rhan sylweddol ym mywyd democrataidd a diwylliannol Cymru yn y ddwy iaith, ac mae'r cyfraniad hwn yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan gynulleidfaoedd. Mae'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan y Gorfforaeth yn cyrraedd 98% o'r cyhoedd yng Nghymru bob wythnos, ac maen nhw'n troi ati tua 7 miliwn o weithiau bob dydd. Wrth i bwysau'r farchnad ddwysáu, mae'n glir bod rôl y BBC yn y sgwrs genedlaethol yng Nghymru yn dod yn fwy pwysig.

Mae'r BBC yn benderfynol o adeiladu ar y berthynas hynod a hirhoedlog hon gyda chynulleidfaoedd yng Nghymru ar adeg o newid a chyfle sylweddol.

Gyda'r tirlun cyfryngau yn newid mor gyflym, mae'n hanfodol ein bod yn meddwl o'r newydd am yr her o wasanaethu cynulleidfaoedd iau a sut rydym yn adlewyrchu realiti'r DU sy'n newid. Mae'n glir bod cynulleidfaoedd hefyd eisiau i ni weithio'n galetach i adlewyrchu bywydau a straeon Cymreig ar y sgrîn, ac rydym yn bwriadu mynd i'r afael â'r her greadigol hon. Rydym hefyd yn benderfynol o weithio'n fwy agored gyda phartneriaid ar draws Cymru i wireddu potensial creadigol a diwylliannol y genedl.

Mae Adran A y papur hwn yn amlinellu amrywiaeth rhaglenni a gwasanaethau'r BBC yng Nghymru ar hyn o bryd, eu heffaith ar gynulleidfaoedd a'r manteision economaidd sy'n deillio o'r buddsoddiad hwn mewn rhaglenni. Mae Adran B yn amlinellu ein cynigion yn y cenhedloedd ar gyfer cyfnod y Siartr nesaf. I gloi, mae Adran C yn mynd i'r afael â nifer o faterion penodol a godwyd gan Gylch Gorchwyl y Pwyllgor, gan gynnwys y gostyngiad mewn rhaglenni Saesneg yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

## Adran A – Trosolwg o raglenni a gwasanaethau'r BBC

### 1. Gwasanaethu Cymru

Yng Nghymru, y BBC yw'r darlledwr sy'n cael ei werthfawrogi fwyaf ac y gellir dibynnu arno fwyaf. Ein nod yng Nghymru yw helpu cynulleidfaoedd i ddarganfod a gwneud synnwyr o'r genedl, ac i hyrwyddo'r dalent orau a'r syniadau mwyaf beiddgar ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru a'r DU. Rydym yn anelu at wneud hynny ar ganfas digon mawr i wneud gwahaniaeth, nid yn unig i'n cynulleidfaoedd, ond i Gymru ei hun.

Mae BBC Cymru yn cyflogi tua 1,300 o staff mewn chwe lleoliad ar draws Cymru (yng Nghaerdydd, Abertawe, Caerfyrddin, Aberystwyth, Bangor a Wrecsam). Mae disgwyl i ni symud o'n prif bencadlys yn Llandaf, Caerdydd, i'r Sgwâr Canolog yng nghanol y ddinas yn 2019. Porth y Rhath ym Mae Caerdydd yw canolfan gynhyrchu drama fwyaf y DU, tra bod cartref Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC yn Neuadd Hoddinott yng Nghanolfan Mileniwm Cymru.

Mae BBC Cymru wedi ymrwymo i adlewyrchu ac adrodd ar Gymru yn y ddwy iaith – ac ar draws pob platfform a dyfais. Mae'r BBC yn darparu gwerth i gynulleidfaoedd yng Nghymru mewn dwy brif ffordd: drwy raglenni a gwasanaethau *cenedlaethol* a gynhyrchir ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru (e.e. BBC Radio Wales, Radio Cymru, *Wales Today* a'n rhaglenni ar gyfer S4C), a thrwy raglenni a gwasanaethau *rhwydwaith* a ddarlledir ar draws y DU (e.e. Radio 4 a BBC Four). Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Cymru wedi dod yn gynhyrchydd o bwys ar gyfer rhaglenni rhwydwaith y BBC ar deledu a radio, gan gynnwys *Doctor Who, Sherlock, Merlin, Crimewatch* a *BBC Young Musician of the Year.* Mae'r buddsoddiad rhwydwaith hwn yng Nghymru werth tua £59.1m bob blwyddyn.

Mae'r BBC yn perfformio'n dda yng Nghymru yn gyson, gan ddenu cynulleidfaoedd a gwerthfawrogiad uwch am ei rhaglenni na chyfartaledd y DU. Mae hynny'n wir am wasanaethau rhwydwaith a'r cynnwys a gynhyrchir yn benodol ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru. Mae cyfran y boblogaeth sy'n cael ei chyrraedd bob wythnos gan bortffolio'r BBC o wasanaethau teledu a radio yn uwch yng Nghymru nag unman arall yn y DU. Yn ogystal â chyrraedd mwy o bobl, mae'r rheiny sy'n cael eu cyrraedd hefyd yn gwylio ac yn gwrando ar gynnwys y BBC yn fwy na chyfartaledd y DU - 75 munud yn fwy bob wythnos, ar gyfartaledd.

### 2. Trosolwg o Berfformiad y BBC yng Nghymru 2014/15

- Mae argraff gyffredinol o'r BBC ymhlith cynulleidfaoedd yn uwch yng Nghymru nag unrhyw un o dair cenedl arall y DU.

- Yn ystod 2014/15, cyrhaeddodd rhaglenni teledu Saesneg BBC Cymru ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru dros 900,000 o wylwyr bob wythnos (neu 32% o'r boblogaeth sy'n oedolion).[1]

- Mae gwasanaethau newyddion BBC Cymru ar radio, teledu ac ar-lein yn cyrraedd 65% o oedolion yng Nghymru bob wythnos.

- Yn ystod 2014/15, gwelwyd bwletinau newyddion *BBC Wales Today* gan tua 1.5m o wylwyr yng Nghymru bob wythnos.[2]

- Yn ystod 2014/15, denodd gwasanaethau symudol ac ar-lein BBC Cymru 3.5m o borwyr fesul wythnos ar gyfartaledd.

- Yn ystod 2014/15, cyrhaeddodd BBC Radio Wales 400,000 o wrandawyr bob wythnos (16% o oedolion) tra denodd BBC Radio Cymru dros 100,000 (33% o siaradwyr Cymraeg rhugl).

- Yn ystod 2014/15, cyrhaeddodd rhaglenni'r BBC a gynhyrchir ar gyfer S4C 130,000 o wylwyr bob wythnos ar gyfartaledd.

## 3. Trosolwg o wasanaethau ar gyfer Cymru

Mae'r BBC yn darparu gwerth i gynulleidfaoedd yng Nghymru mewn dwy brif ffordd: drwy raglenni a gwasanaethau sy'n cael eu cynhyrchu yng Nghymru ar gyfer Cymru yn benodol; a thrwy ddarparu gwasanaethau'r BBC sy'n cael eu darlledu ar draws y DU.

### 3.1 Gwasanaethau cenedlaethol ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru

Mae'r BBC yn darlledu amrywiaeth o wasanaethau a rhaglenni i fodloni anghenion arbennig cynulleidfaoedd yng Nghymru, gan gynnwys BBC Radio Wales, BBC Radio Cymru, ac amrywiaeth o gynnwys rhyngweithiol a rhaglenni teledu pwrpasol fel *BBC Wales Today* a *Scrum V* ar BBC One Wales a BBC Two Wales.

Yn ychwanegol at hynny, mae'r BBC hefyd yn cynhyrchu rhaglenni ar gyfer S4C, sydd wedi'u cyllido gan ffi'r drwydded. Mae'r rhaglenni hyn yn cynnwys y gwasanaeth *Newyddion* a'r ddrama *Pobol y Cwm*.

Mae gwasanaethau a rhaglenni'r BBC sy'n benodol i Gymru yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr ac mae eu perfformiad cyffredinol yn gryf. Mae rhaglenni teledu'r BBC ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru yn benodol yn cyrraedd 900,000 o wylwyr bob wythnos

---

[1] Yn seiliedig ar gyrhaeddiad 15 munud

[2] Yn seiliedig ar gyrhaeddiad 3 munud

(32% o'r boblogaeth) ac mae'r gwerthfawrogiad cyfartalog ar gyfer y rhaglenni hyn yn uwch na'r cyfartaledd ar draws holl raglenni teledu'r BBC yn yr un genre. Mae Radio Wales yn cyrraedd tua 400,000 o wrandawyr bob wythnos (16% o oedolion) a Radio Cymru dros 100,000 (33% o siaradwyr Cymraeg rhugl). Mae arlwy'r BBC ar gyfer S4C yn cyrraedd 130,000 o wylwyr bob wythnos.

***Tabl 1: Perfformiad gwasanaethau'r BBC sy'n benodol ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru (2014/15)***

| | Cyrhaeddiad wythnosol ar gyfartaledd (%) | Ansawdd | Amser a dreulir ar gyfartaledd fesul gwyliwr/gwrandawr fesul wythnos (awr:munud) |
|---|---|---|---|
| **Opts Teledu'r BBC (gan gynnwys newyddion)** | 31.7 | 81.9 | Data ddim ar gael |
| **BBC Radio Wales** | 16.2 | 83.0 | 9:21 |
| **BBC Radio Cymru** | 4.6 | 78.1 | 10:47 |
| **BBC Cymru ar S4C** | 4.6 | Data ddim ar gael | Data ddim ar gael |

### 3.1.1 Teledu Saesneg (neu 'opts')

Bob blwyddyn, mae'r BBC yn darlledu tua 600 awr o raglenni teledu Saesneg ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru ar BBC One Wales a BBC Two Wales. Yn ystod 2014/15, cyfanswm cost y rhaglenni hyn oedd £20.8m.

Mae BBC One Wales yn cynnig newyddion, materion cyfoes a rhaglenni cyffredinol i Gymru fel rhan annatod o arlwy'r sianel ar draws y DU. Mae'r rhaglenni hyn ar gyfer Cymru yn disodli rhaglenni rhwydwaith sy'n cael eu gweld mewn llefydd eraill ar draws y DU. Y strategaeth ar gyfer BBC One Wales yw darparu amrywiaeth o raglenni difyr a pherthnasol ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru. Ers 2013, mae BBC One Wales wedi bod yn sianel HD.

Gan amlaf, mae BBC Two Wales yn amserlennu rhaglenni gwasanaeth cyhoeddus mwy arbenigol neu sydd wedi'u targedu i gynulleidfaoedd yng Nghymru, gan gynnwys celfyddydau, gwleidyddiaeth a chwaraeon, gan gynnwys rygbi domestig byw Guinness Pro12, a ddarlledir gan amlaf ar nos Wener yn yr oriau brig. Yn ystod cyfnod y Ffi'r Drwydded nesaf, fe ddaw BBC Two Wales yn sianel HD.

Mae'r buddsoddiad hwn ar draws BBC One Wales a BBC Two Wales wedi cynhyrchu'r mathau canlynol o raglenni:

***Tabl 2: Rhaglenni teledu Saesneg fesul genre 2014/15***

| Genre | Oriau |
|---|---:|
| Drama, Comedi, Adloniant, Cerddoriaeth, Celfyddydau | 20 |
| Newyddion a Materion Cyfoes | 386 |
| Chwaraeon | 150 |
| Addysg, Ffeithiol a Chrefydd | 60 |
| **Cyfanswm** | **616** |
| Cyfanswm £m | **£20.8m** |

Mae'r rhaglenni hyn yn cael eu cynhyrchu gan dimau mewnol a'r sector annibynnol – gyda chwmnïau annibynnol yn cynhyrchu isafswm o 35% o'r oriau sydd ddim yn newyddion bob blwyddyn.

Mae'r gostyngiad mewn rhaglenni teledu Saesneg wedi bod yn destun cryn drafod yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r buddsoddiad mewn cynnwys wedi gostwng tua 30% mewn termau real ers 2006/07 o ganlyniad i gynlluniau arbedion cyson yn ystod y degawd diwethaf (gweler Adran C).

Er gwaetha'r cyd-destun ariannol heriol a'r arbedion a wnaed yn ystod y saith mlynedd ddiwethaf, mae ffigurau cynulleidfa ar gyfer rhaglenni teledu Saesneg yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi cyrraedd eu lefel uchaf mewn degawd ar draws newyddion a rhaglenni cyffredinol.

Mae ein rhaglenni yn ceisio adlewyrchu'r Gymru gyfoes amrywiol, gyda'n *opts* yn perfformio'n well ar draws amrywiaeth o fesurau. Mae mynegai gwerthfawrogiad (AIs) ar gyfer rhaglenni BBC Cymru sydd ddim yn newyddion – gan gynnwys *Rhod Gilbert's Work Experience, Weatherman Walking* a *Hinterland* - ar y blaen i gyfartaledd AI BBC One/Two yng Nghymru, gyda'r gyfran gyfartalog yn uwch na'r rhaglenni rhwydwaith a ddisodlwyd.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r cynnwys wedi canolbwyntio ar dymhorau o raglenni er mwyn manteisio i'r eithaf ar eu heffaith – gan gynnwys *Real Valleys, Real North Wales* a *Live Longer Wales.*

Denodd y rhaglenni a ddarlledwyd i nodi canmlwyddiant geni Dylan Thomas dros 800,000 o wylwyr, gan ddod â thalentau gorau Cymru i'r sgrîn, gan gynnwys Michael Sheen, Tom Jones a Sian Phillips mewn addasiad o *Under Milk Wood*. Roedd amrywiaeth y tymor yn drawiadol.Yn *Ugly Lovely Swansea: A Poet on the Estate,* heriodd ac ysbrydolodd y bardd *dub* Benjamin Zephaniah drigolion stâd Townhill i anrhydeddu'r bardd drwy farddoniaeth a pherfformio. Dyddiau olaf Dylan oedd dan sylw yn *A Poet in New York*, gwaith yr awdur Andrew Davies a Tom Hollander yn y brif ran.

### 3.1.2 BBC Radio Wales

Pwrpas BBC Radio Wales yw darparu gwasanaeth radio i bobl sydd â diddordeb ym mywyd, diwylliant a materion Cymru. Mae'n darlledu tua 20 awr y dydd ac yn cyrraedd tua 400,000 o wrandawyr bob wythnos. Cost y rhaglenni hyn yn 2014/15 oedd £10.6 miliwn.

Ar hyn o bryd, mae'r BBC yn gwarantu bod isafswm o 10% o raglenni Radio Wales[3] yn cael eu cynhyrchu gan y sector annibynnol. Ers 2012/13, mae 10% pellach wedi'i roi yn y W*indow of Creative Competition* rhwng y sector annibynnol a'r tîm cynhyrchu mewnol.

Yn ystod 2014/15, darparwyd 25.5% o'r oriau dilys gan y sector annibynnol.

***Tabl 3: Dadansoddiad o Raglenni Radio Wales 2014/15***

| **Rhaglenni** | **Oriau** |
|---|---:|
| Newyddion a Materion Cyfoes | 2,184 |
| Rhaglenni cyffredinol | 4,894 |
| **Cyfanswm** | **7,078** |
| Cyfanswm £m | **£10.6m** |

Mae'r orsaf yn cynnig gwasanaeth anhepgor: mae'n gosod yr agenda newyddion cenedlaethol drwy'r brif raglen *Good Morning Wales*, yn cynnig cyfle i gynulleidfaoedd ryngweithio drwy'r rhaglen *Morning Call* ac yn dathlu diwylliant cyfoethog Cymru.

Mae rhai o uchafbwyntiau creadigol y flwyddyn ddiwethaf wedi cynnwys cyfres o raglenni i nodi canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf a chydweithio unigryw rhwng Mike Peters o The Alarm a Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC. Mae chwaraeon hefyd wrth galon yr orsaf gyda darllediadau byw o'r Chwe Gwlad, Cwpan Rygbi'r Byd a llwyddiant tîm pêl-droed Cymru ar y daith i Ewro 2016.

### 3.1.3 BBC Radio Cymru

Pwrpas BBC Radio Cymru yw darparu gwasanaeth radio ar gyfer pobl sydd â diddordeb mewn deall bywyd, diwylliant a materion Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r gwasanaeth yn darlledu hyd at 19 awr bob dydd. Cost y rhaglenni hyn yn 2014/15 oedd £10.0m.

[3] Targed 10% y sector annibynnol ar gyfer Radio Cymru a Radio Wales ac eithrio rhaglenni newyddion a bwletinau newyddion a chwaraeon

Fel gyda Radio Wales, mae o leiaf 10% o'i rhaglenni wedi'u cynhyrchu gan y sector annibynnol gyda'r *Window of Creative Competition,* a gyflwynwyd yn 2012/13, yn cynnig hyd at 10% o'r oriau dilys.

Yn 2014/15, darparwyd 19.2% o'r oriau dilys gan y sector annibynnol.

Mae gan Radio Cymru berthynas ddofn ac hanesyddol gyda chymunedau Cymraeg – ac mae'n cael ei gwerthfawrogi'n fawr am y ddarpariaeth o newyddion, diwylliant, adloniant a thrafod. Serch hynny, mae'r her o gyrraedd siaradwyr Cymraeg iau, gyda lefelau rhuglder is yn aml iawn, yn fater sy'n wynebu'r holl wasanaethau Cymraeg yn y cyfryngau.

Mae Radio Cymru yn cyrraedd dros 100,000 o wrandawyr bob wythnos, tua un rhan o dair o siaradwyr Cymraeg rhugl, a chlywir yr orsaf yn fwy nag unrhyw orsaf arall ymhlith y grŵp hwn. Mewn wythnos arferol, mae dros filiwn o oriau o gynnwys Radio Cymru yn cael ei glywed.

Yn 2013, cynhaliodd Radio Cymru yr ymgynghoriad mwyaf erioed gyda'r gynulleidfa, *Sgwrs Radio Cymru,* yn sgil sialensau parhaus y gynulleidfa. Yn seiliedig ar dros 1,000 o ymatebion, mae'r gwasanaeth wedi addasu yn sgil canlyniadau *Y Sgwrs* drwy gynnig llawer mwy o gynnwys amrywiol.

***Tabl 4: Dadansoddiad o Raglenni Radio Cymru 2014/15***

| **Rhaglenni** | **Oriau** |
|---|---:|
| Newyddion a Materion Cyfoes | 1,306 |
| Rhaglenni cyffredinol | 4,948 |
| **Cyfanswm** | **6,254** |
| Cyfanswm £m | **£10.0m** |

### 3.1.4 Rhaglenni BBC Cymru Wales ar S4C

Mae rhaglenni'r BBC wrth galon amserlen S4C. Mae gennym ddyletswydd statudol i ddarparu o leiaf 10 awr o raglenni bob wythnos i'r sianel. Mae ein cyfraniad yn cynnwys *Newyddion 9*, y ddrama *Pobol y Cwm*, rygbi byw domestig a rhyngwladol, ac arlwy cynhwysfawr o'r Eisteddfod Genedlaethol. Yn ystod 2014/15, cyfanswm cost rhaglenni'r BBC oedd £19.7m. Cynhyrchwyd y rhaglenni canlynol gyda'r buddsoddiad hwn:

***Tabl 5: Oriau BBC Cymru ar S4C fesul genre 2014/15***

| **Genre** | **Oriau** |
|---|---|
| Drama, Comedi, Adloniant, Cerddoriaeth, Celfyddydau | 185 |
| Newyddion a Materion Cyfoes | 271 |
| Chwaraeon | 99 |
| Addysg, Ffeithiol a Chrefydd | 7 |
| Plant | 2 |
| **Cyfanswm** | **564** |
| Cyfanswm £m | **£19.7m** |

Mae rhaglenni’r BBC ar gyfer S4C yn cael eu cynhyrchu gan dimau cynhyrchu mewnol, ac mae'n cyd-fynd â'r rhaglenni sy'n cael eu cynhyrchu'n annibynnol, sef gweddill gwasanaeth S4C.

At hynny, mae BBC Cymru yn gweithio'n agos gyda S4C ar brosiectau rhaglenni sydd o fudd i'r gynulleidfa Gymraeg a Saesneg. Er enghraifft, mae'r gyfres ddrama *Hinterland/Y Gwyll* wedi'i chyd-gomisiynu gan y BBC a S4C. Yn 2014, gweithiodd y BBC yn agos gyda S4C i gyflwyno'r sianel ar BBC iPlayer, gan drawsnewid amlygrwydd ac argaeledd rhaglenni Cymraeg ar-alw. Hyd yma, mae wedi derbyn 80,000 o sesiynau gwylio ychwanegol bob wythnos ar draws tua 1,200 o ddyfeisiau sy'n gallu chwarae iPlayer.

Yn ogystal â'r rhaglenni a gyflenwir gan BBC Cymru, mae S4C hefyd yn derbyn tua £75m y flwyddyn o gyllid uniongyrchol gan Ymddiriedolaeth y BBC (darperir y cyllid hwn o dan Gytundeb Gweithredol a sefydlwyd rhwng Ymddiriedolaeth y BBC ac Awdurdod S4C). Dechreuodd y trefniant newydd hwn yn Ebrill 2013, yn dilyn cytundeb Ffi'r Drwydded yn 2010 rhwng y BBC a Llywodraeth y DU.

### 3.1.5 Gwasanaethau ar-lein a dysgu'r BBC

Mae ein gwasanaethau ar-lein a symudol yng Nghymru yn gwireddu pwrpasau cyhoeddus y BBC drwy ganolbwyntio ar newyddion ar-lein, chwaraeon, dysgu a gwybodaeth ynglŷn â sut i ganfod ein cynnwys, yn enwedig ar blatfformau digidol fel iPlayer.

Mae BBC iPlayer yn rhoi mynediad i BBC Radio Wales, BBC Radio Cymru a rhaglenni teledu a gynhyrchir yng Nghymru ar gyfer Cymru. Yn ystod 2014/15, cost y cynnwys ar-lein penodol i Gymru, yn y ddwy iaith, oedd £3.9m.

Mae gwasanaethau dysgu'r BBC yn rhan annatod o'n harlwy ar-lein i gynulleidfaoedd yng Nghymru. Bitesize yw carreg sylfaen y portffolio dysgu hwn gyda chyrhaeddiad uchel iawn ymhlith y gynulleidfa darged, ond yn arbennig ymhlith y rheiny sy'n paratoi ar gyfer arholiadau TGAU. Yn ystod cyfnod y Siartr nesaf, rydym wedi ymrwymo i ddatblygu

gwasanaeth Bitesize sydd wedi'i deilwra'n llawn ar gyfer Cymru, sy'n bodloni gofynion cwricwlwm datganoledig yn y ddwy iaith.

### 3.2 Gwasanaethau'r BBC ar draws y DU

Mae gwasanaethau'r BBC ar draws y DU (fel BBC One, Radio 4, CBBC neu BBC Three) yn darparu gwerth sylweddol i gynulleidfaoedd yng Nghymru ac yn cyfrannu at y rhan fwyaf o'u gwylio a gwrando gan y BBC. Mae gwasanaethau rhwydwaith fel BBC One nid yn unig yn darparu gwerth i gynulleidfaoedd, maent hefyd yn darparu buddsoddiad economaidd uniongyrchol wrth i gyfran y rhaglenni a gynhyrchir yng Nghymru ar gyfer gwasanaethau'r BBC ar draws y DU, gynyddu'n gyson.

Mae'r BBC yn perfformio'n well yng Nghymru yn gyson, gan ddenu cynulleidfaoedd a gwerthfawrogiad uwch na chyfartaledd y DU. Mae hynny'n wir am gynnwys rhwydwaith a chynnwys a gynhyrchir yn benodol i gynulleidfaoedd yng Nghymru.

Mae cyfran y boblogaeth sy'n cael ei chyrraedd gan wasanaethau teledu a radio'r BBC yn uwch yng Nghymru o'i gymharu â chyfartaledd y DU. Mae hyn yn arbennig o wir am radio'r BBC, lle mae’r cyrhaeddiad llawer uwch yn gyson yng Nghymru o'i gymharu â chyfartaledd y DU. Yn ogystal â chyrraedd mwy o bobl, mae'r rheiny sy’n cael eu cyrraedd hefyd yn gwylio ac yn gwrando ar gynnwys y BBC yn fwy na chyfartaledd y DU - 75 munud yn fwy fesul wythnos ar gyfartaledd. Mae gwerthfawrogiad cyffredinol o'r BBC hefyd yn uwch yng Nghymru nag mewn unrhyw un o dair cenedl arall y DU, gyda gwerthfawrogiad rhaglenni ychydig yn uwch yng Nghymru ar gyfer teledu'r BBC a radio'r BBC.

***Tabl 6: Perfformiad y BBC gyfan yng Nghymru, 2014/15***

| | Cyrhaeddiad wythnosol ar gyfartaledd (%) | | Ansawdd | | Amser a dreulir ar gyfartaledd fesul gwyliwr/gwrandawr fesul wythnos (awr:munud) | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | DU | Cymru | DU | Cymru | DU | Cymru |
| **BBC Gyfan** | 97 | 98 | 6.97 | 7.08 (GI) | 18:10 | 19:25 |
| **Holl Deledu’r BBC** | 82 | 85 | 81.1 | 81.6 (AI) | 10:15 | 12:00 |
| **Holl Radio’r BBC** | 65 | 76 | 80.3 | 82.8 (AI) | 15:40 | 16:25 |

## 4. Cynyrchiadau rhwydwaith y BBC yng Nghymru

Yn ystod y degawd diwethaf, mae'r BBC wedi ceisio dad-ganoli ei chynyrchiadau rhwydwaith i helpu i dyfu'r economi greadigol y tu allan i Lundain ac i ledaenu manteision gwariant Ffi'r Drwydded.

Gosodwyd dau darged clir: dylai 50% o wariant teledu rhwydwaith gael ei fuddsoddi y tu allan i Lundain, ac y dylid gwario 17% yn y cenhedloedd datganoledig (fwy neu lai yn unol â maint eu poblogaeth). Rydym eisoes wedi gwireddu'r ddau darged yn gynt na'r disgwyl. Ar lawer ystyr, mae Cymru wedi arwain y ffordd - drwy ddiogelu 7.8% o wariant teledu rhwydwaith yn ystod 2014/15 (£59.1m), o'i gymharu â chyfran y boblogaeth o 4.9%.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae BBC Cymru wedi datblygu enw da ar draws y byd am gynhyrchu dramâu, ac mae hynny bellach yn digwydd yn stiwdios Porth y Rhath ym Mae Caerdydd, lle mae *Casualty*, *Doctor Who* a *Pobol y Cwm* i gyd yn cael eu cynhyrchu. Mae gan y cyfleuster 175,000 troedfedd sgwâr naw stiwdio sy'n HD-barod ac mae pob cyfleuster yn llawn. Mae arddangosfa *Doctor Who Experience*, sy'n cael ei rhedeg gan BBC Worldwide, dafliad carreg o'r stiwdios.

O ganlyniad uniongyrchol i'r buddsoddiad cynyddol gan y BBC mewn cynyrchiadau drama yng Nghymru, mae sail gadarn o dalent technegol wedi'i sefydlu gydag amrywiaeth eang o sgiliau a phrofiad. Gan fod yr economi cynhyrchu drama wedi'i seilio'n bennaf ar arbenigedd llawrydd, mae hynny'n golygu y gall cwmnïau annibynnol - yn ogystal â thimau mewnol BBC Cymru - ddatblygu rhai o brosiectau mwyaf uchelgeisiol ac uchel eu proffil ym myd teledu Prydain, yn sicr eu meddwl bod y wybodaeth a'r sgiliau ar gael i'w cynhyrchu yng Nghymru.

Ddeng mlynedd ers lansio *Doctor Who*, mae gan Gymru bellach bedair stiwdio ddrama fawr - yn Pinewood (Gwynllŵg), Dragon Studios (ger Pen-y-bont ar Ogwr), Bay Studios (Abertawe) yn ogystal â Phorth y Rhath. Wrth i'r cynyrchiadau barhau i dyfu, mae'r BBC yng Nghymru yn gweithio'n agos gyda sefydliadau fel Cyfle a Creative Skillset Cymru i ddatblygu sgiliau mewn meysydd allweddol ym maes cynhyrchu rhaglenni.

Yn ogystal â drama, mae BBC Cymru hefyd yn ganolfan sylweddol ar gyfer cynyrchiadau rhwydwaith ffeithiol a cherddoriaeth. Mae rhaglenni uchel eu proffil yn cynnwys *Crimewatch*, *Bargain Hunt*, *Call Centre*, *BBC Cardiff Singer of the World*, *Young Musician* ac amrywiaeth o gyfraniadau i'r *One Show*. Mae twf y cynyrchiadau rhwydwaith mewnol hefyd wedi cyd-fynd â chynnydd sylweddol mewn cynyrchiadau rhwydwaith a gynhyrchir yn annibynnol o Gymru, fel *Sherlock*, *Atlantis*, *A Poet in New York*, *Hinterland / Y Gwyll* ac *Only Connect*.

Mae'r datblygiadau hyn wedi helpu i sbarduno datblygiad economi greadigol Cymru - gan gyfrannu at gynnydd o 52% yn nifer y bobl sy'n gweithio yn y diwydiannau creadigol rhwng 2005 a 2014 i 47,700. Mae'r trosiant ar draws y sector wedi cynyddu 17.5% yn ystod yr un cyfnod.

Ym mis Medi 2015, cyhoeddodd y BBC gynlluniau i drawsnewid y mwyafrif o'i thimau cynhyrchu mewnol - gan gynnwys y rheiny yng Nghymru - i BBC Studios, cwmni y bydd y BBC yn berchen arno'n gyfan gwbl.

Byddai BBC Studios yn gweithredu'n y farchnad, yn cynhyrchu rhaglenni ar gyfer y BBC a darlledwyr eraill yn y DU ac yn rhyngwladol, ac yn dod â'r holl elw yn ôl i Grŵp y BBC. Byddai'n ymrwymedig i gefnogi cenhadaeth a gwerthoedd gwasanaeth cyhoeddus y BBC, ac yn cadw cynhyrchu rhaglenni wrth galon y BBC.

Fel rhan o'r cynlluniau hyn, mae'r BBC hefyd yn cynnig cael gwared ar y gwarant mewnol cyffredinol o 50%, sy'n golygu y byddai cynhyrchwyr allanol hefyd yn gallu cystadlu am gyfran uwch o wariant comisiynu rhwydwaith y BBC. Mae'r BBC o'r farn mai'r cynnig hwn yw'r ffordd orau o barhau i ddarparu rhaglenni creadigol gwych i gynulleidfaoedd a gwerth hir dymor i'r rhai sy'n talu ffi'r drwydded.

Y bwriad yw y byddai holl dimau cynyrchiadau rhwydwaith o fewn BBC Cymru yn dod yn rhan o BBC Studios, ac rydym yn ymgynghori â rhanddeiliaid cyn penderfynu a ddylai timau cynhyrchu teledu lleol yng Nghymru gael eu cynnwys. Gallwch ddarllen mwy am y cynlluniau fan hyn.

http://downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/reports/pdf/bbc_studios_2015.pdf

## 5. Effaith economaidd y BBC

*'A BBC of scale and scope with a stable funding mechanism that does not compete with commercial sources (i.e. advertising and subscription) lies at the heart of a successful UK creative economy.'*

'Mae'r BBC yn dal yn gonglfaen y system darlledu gwasanaeth cyhoeddus a'r BBC ydy'r prif fuddsoddwr ar draws y system.'

*Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn oes y Rhyngrwyd: Trydydd Adolygiad Ofcom o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus: Gorffennaf 2015, Tudalen 3*

## 5.1 Effaith economaidd ar draws y DU

Buddsoddodd y BBC tua £2.2 biliwn yn uniongyrchol yn y diwydiannau creadigol yn ystod 2013/14. Roedd hyn yn cynnwys tua £1.2 biliwn y tu allan i'r BBC, gyda tua £450 miliwn yn cael ei fuddsoddi mewn busnesau creadigol bach a meicro. Cefnogodd y BBC dros 2,500 o gyflenwyr creadigol, gyda tua 86% yn fusnesau bach neu feicro.

Buddsoddwyd £1.5 biliwn pellach y tu allan i'r diwydiannau creadigol yn y DU: gyda chryn dipyn o'r gwariant hwn mewn diwydiannau digidol a *high-tech* ar weithgareddau sy'n cefnogi creu a dosbarthu cynnwys.

Mae'r BBC yn hyrwyddo eiddo deallusol a delwedd Prydain o amgylch y byd: mae 56% o fusnesau tramor yn cytuno eu bod yn fwy tebygol o wneud busnes gyda'r DU oherwydd beth maen nhw'n ei wybod am y BBC.[4]

Mae'r BBC yn gallu darparu'r cyfalaf risg ar gyfer syniadau a chreadigrwydd Prydeinig: mae'n derbyn tua 22% o'r refeniw teledu ond mae'n gyfrifol am tua 42% o'r buddsoddiad mewn cynnwys gwreiddiol.

Serch hynny, mae'r sialensau cystadleuol ar gyfer y BBC yn cynyddu, gyda thwf cwmnïau digidol sydd ag incwm llawer uwch na'r BBC: refeniw y BBC ar gyfer 2013 oedd £5.1bn o'i gymharu â £7.2bn Sky, $59.8bn Google, $77.9bn Microsoft a $170.9bn Apple.

Ym mis Awst 2015, edrychodd adroddiad gan PriceWaterhouse Coopers, ar yr effaith y byddai newidiadau i refeniw ffi'r drwydded yn ei chael ar y sefydliad, ar y diwydiant a'r economi greadigol. Nododd yr adroddiad hefyd, am bob £1 o gynnydd yn incwm ffi'r drwydded, byddai 60 ceiniog ychwanegol o werth economaidd yn cael ei greu.[5]

I'r gwrthwyneb, dangosodd adroddiad diweddar Enders Analysis am bob £1 a dorrir yng nghyllideb deledu'r BBC, byddai cyfanswm y buddsoddiad cynnwys yn lleihau o leiaf 35c, a chynnwys a ddarlledir gyntaf yn y DU yn lleihau o leiaf 49c.[6]

## 5.2 Effaith economaidd yng Nghymru

Amcangyfrifir mai £186m[7] yw'r refeniw a ddaw o Ffi'r Drwydded yng Nghymru, ac mae £154m o hwnnw yn cael ei wario ar ddarparu cynnwys a gynhyrchir naill ai gan BBC Cymru neu gan bartneriaid cynhyrchu annibynnol.

[4] http://downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/howwework/reports/pdf/bbc_report_economic_return_global_footprint_2013.pdf
[5] http://downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/reports/pdf/bbclfpwc2015.pdf
[6] Enders Analysis: *BBC TV - Impact on investment in UK content*: Medi 2015
[7] Ffynhonnell: Amcangyfrifon Incwm, Trwyddedu Teledu (TVL). Seilir ar y dybiaeth fod ffi'r drwydded yn cael ei thalu'n llawn

Mae 60% o wariant BBC Cymru yn cael ei dargedu at wasanaethau penodol i Gymru gyda'r 40% sy'n weddill yn cael ei wario ar gynnwys teledu rhwydwaith ar gyfer cynulleidfaoedd y DU.

Bob dwy flynedd, mae'r BBC yn mesur effaith economaidd ei gweithgareddau yn y DU. Yn 2013 - y tro diwethaf y cynhaliwyd asesiad o'r fath - amcangyfrifodd y BBC a Deloittes mai GVA gweithgareddau'r BBC yng Nghymru oedd £276 miliwn. Mae hyn yn golygu am bob punt sy'n cael ei gwario gan y BBC yng Nghymru, mae ei effaith bron yn ddwbl hynny.[8]

Mae manteision economaidd BBC Cymru yn parhau i ymestyn yn bell ac yn eang, gan gynnig gwerth gwirioneddol i fusnesau digidol a chreadigol ledled y DU.

Ychwanegodd buddsoddiad y BBC mewn gweithgareddau creadigol yng Nghymru at yr economi leol drwy gwmnïau lleol a gweithwyr llawrydd yn cydweithio'n agos â'r BBC. Mae hyn yn helpu i gynnal swyddi yn y cwmnïau hyn. Yn y cyfamser, mae'r cwmnïau hyn (a'u gweithwyr) yn prynu nwyddau a gwasanaethau pellach, gan greu effaith 'luosog' bositif ar gyfer yr economi.

Yn 2014-15, cyfanswm gwariant uniongyrchol BBC Cymru gyda chyflenwyr a chynhychwyr allanol oedd tua £50m.

***Tabl 7: Gwariant Allanol gan BBC Cymru, 2014/15***

| 2014-15 gwariant allanol | Gwerth (£m) |
|---|---|
| **Cwmnïau Annibynnol** | **16.4** |
| **Cyfranwyr a Hawlfraint** | **17.7** |
| **Cyfleusterau Rhaglenni Allanol** | **13.6** |
| **Grwpiau Perfformio** | **0.8** |
| **Cyfanswm** | **48.5** |

8 http://downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/howwework/reports/pdf/bbc_economic_impact_2013.pdf

## Adran B - Cynigion Siartr y BBC ar gyfer y cenhedloedd datganoledig

Ym mis Medi 2015, cyhoeddodd Gweithrediaeth y BBC set gynhwysfawr o gynigion ar gyfer y Siartr nesaf, gan gynnwys cynlluniau i wella rhaglenni a gwasanaethau presennol ar gyfer y cenhedloedd datganoledig fel rhan o'r cynllun *British Bold Creative*. Mae pump o feysydd arwyddocaol i'r cenhedloedd.

### 1. Cryfhau Newyddion y BBC yn y cenhedloedd

Wrth i ddatganoli gyflymu – ac wrth i'r DU newid yn gyflymach nag erioed o'r blaen – bydd angen i ni addasu ein gwasanaethau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'n llwyr ac yn adrodd ar y tirlun gwleidyddol gwahanol yn y DU. Ni ddylai'r BBC, mewn egwyddor, arwain na llusgo y tu ôl i newid cyfansoddiadol yn y Deyrnas Unedig.

Ein blaenoriaeth yw sicrhau ein bod yn rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i bobl ym mhob un o bedair cenedl y DU, i wneud synnwyr o'u byd a helpu i sicrhau bod y rheiny sydd mewn grym, yn atebol.

O fewn y DU ddatganoledig, mae newyddion mewn rhai rhannau o'r wlad, mewn gwirionedd, ddim yn berthnasol i eraill. Mae gwleidyddiaeth ac economeg y wlad yn fwy amrywiol, ac o'r herwydd, mae'r gwaith o ohebu ar hynny yn fwy cymhleth.

Mae gan y BBC gyfrifoldeb i sicrhau ei bod yn hysbysu'r gynulleidfa yn y ffordd fwyaf effeithiol a pherthnasol posib. Rydym o'r farn bod yr amser wedi dod i daro cydbwysedd gwell rhwng darparu newyddion y DU gyfan a newyddion sydd wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion ac agenda penodol cenhedloedd datganoledig y DU.

I ddechrau, byddwn yn darparu hafan-ddalen BBC Newyddion gwahanol ym mhob un o'r cenhedloedd. Byddwn yn personoli ein gwasanaethau newyddion i adlewyrchu diddordebau personol ym mhob rhan o'r DU.

Ond efallai y bydd angen i ni fynd ymhellach. Rydym am ymgynghori â chynulleidfaoedd ar draws y wlad ynglŷn â ydym wedi taro'r cydbwysedd iawn rhwng bwletinau newyddion y DU gyfan a bwletinau y cenhedloedd ar deledu. Mae ein gwasanaethau newyddion erbyn hyn yn boblogaidd iawn ac yn cael eu defnyddio'n helaeth gan gynulleidfaoedd, gan gynnwys y *Six O Clock News*, lle bu cryn drafod.

Ond ar ôl datganoli, refferendwm yr Alban, a byd lle mae sawl agwedd o bolisi cyhoeddus yn cael ei ddatganoli yn y cenhedloedd, mae achos llawer cryfach erbyn hyn dros ddarparu cydbwysedd gwahanol o ran sut rydym yn gwasanaethu cynulleidfaoedd gyda'r newyddion a materion cyfoes mwyaf perthnasol gan y BBC ar deledu. Rydym yn edrych ymlaen at

archwilio'r opsiynau gwahanol gyda'n partneriaid, rhanddeiliaid a chynulleidfaoedd drwy gydol y broses o Adolygu'r Siartr.

## 2. Adlewyrchu amrywiaeth y cenhedloedd ar wasanaethau rhwydwaith

Ar draws cenhedloedd a rhanbarthau'r DU, rydym yn gwybod bod y cyhoedd am i ni wneud mwy i bortreadu amrywiaeth bywyd yn llawn ar draws y DU ar ein rhaglenni a'n gwasanaethau. Mae'r DU yn newid, ac nid mater hawdd yw cynrychioli neu bortreadu pob agwedd ar fywyd Prydain ar draws ein holl wasanaethau.

Serch hynny, mae gan y BBC rôl annatod fan hyn, a byddwn yn datblygu ein rhaglenni a'n gwasanaethau i fodloni anghenion cyfnewidiol y gynulleidfa.

Yn ystod y Siartr bresennol, sicrhawyd bod yr hyn sy'n cael ei wario ar deledu rhwydwaith ym mhob un o'r Cenhedloedd, fwy neu lai yn gyson â maint y boblogaeth. Ond rydym yn cydnabod nad gwariant yw popeth – mae angen i ni wneud mwy, a gwneud yn well, i adlewyrchu bywydau a phrofiadau pawb sy'n talu ffi'r drwydded.

Yn ystod y cyfnod Siartr nesaf, byddwn yn parhau'n ymrwymedig i fuddsoddi mewn rhaglenni ar draws y DU gan sicrhau bod y dramâu a'r comedi a gynhyrchwn ar gyfer BBC One a BBC Two yn adlewyrchu amrywiaeth cenhedloedd a rhanbarthau'r DU yn well.

## 3. Cryfhau'r ddarpariaeth yn y cenhedloedd

Er ein bod yn gwybod bod cynulleidfaoedd ar draws y DU yn caru ac yn edmygu dramâu, comedi a rhaglenni dogfen y BBC, maen nhw hefyd yn dweud wrthym yn glir bod angen i ni wneud mwy i roi sylw i straeon arbennig Cymru.

Felly rydym yn gosod her greadigol glir i'n hunain: i addasu'r BBC ar gyfer y DU sy'n newid. Yn ystod y blynyddoedd nesa, rydym am ddweud straeon newydd a gwahanol. Rydym am ddod o hyd i bobl newydd i gyflwyno'r straeon hynny ym mhob rhan o'r DU – pobl sy'n byw ac yn bod yn y tirlun cyfnewidiol.  Ac rydym am ddweud y straeon hyn mewn ffyrdd newydd ac mewn llefydd newydd – oherwydd mae technoleg a marchnadoedd yn newid.

Rydym yn argymell creu gwasanaeth digidol rhyngweithiol ar gyfer pob un o genhedloedd y DU. Drwy greu 'sianeli' sydd wedi'u curadu ar ein gwasanaethau digidol cyfredol – fel iPlayer – byddwn yn gallu darparu cynnig unigryw, gan alluogi'r BBC i ddangos cynnwys cyfredol yn ogystal â chynnwys digidol-yn-gyntaf newydd – cynnwys ein hunain ac amrywiaeth ehangach o bartneriaid.

Ond ni ellir darparu buddsoddiad sylweddol newydd mewn ystod ehangach o raglenni – fel drama, comedi ac adloniant – o fewn y cytundeb cyllidebol presennol a gytunwyd gyda'r Llywodraeth.

## 4. Gwasanaethau Cymraeg

Mae’r BBC wedi ymrwymo’n llwyr i ddarlledu a darparu gwasanaethau yn Gymraeg. Mae’r rhaglenni a’r gwasanaethau rydym yn eu darparu ar hyn o bryd – drwy ein gwasanaethau ein hunain ac ar y cyd â’n partneriaid – yn rhan annatod o rôl y BBC. Byddwn yn parhau i gefnogi ac i weithio’n agos gyda S4C.

Wrth ymateb i sialensau cynyddol y gynulleidfa, rydym yn awyddus i weithio’n agos gyda S4C i symud yn gyflymach ar-lein i gyrraedd cynulleidfaoedd iau, digidol, gyda chynnwys sy’n berthnasol i’w bywydau. Byddwn yn defnyddio – ac yn rhannu – technoleg myBBC i alluogi mwy o wasanaethau personoli sy’n gallu adlewyrchu diddordebau a lefelau rhuglder gwahanol yn well.

## 5. Cefnogi'r cwricwlwm ar draws y DU

Mae gan y BBC rôl allweddol wrth gefnogi mwy o addysg ffurfiol - gyda chanllaw i ddysgwyr ac adnoddau cwricwlwm, sy'n hynod o boblogaidd ac yn cael eu defnyddio'n gyson. Mae'r cyfan hyn yn dod o dan faner Bitesize.

Ar draws y DU, mae'r cwricwlwm ysgolion wedi'i ddatganoli, ac yn wahanol yn amlach na pheidio. Ein bwriad yw datblygu adnoddau cwricwlwm ar gyfer pob cenedl, gan adeiladu ar ein darpariaeth bresennol a sicrhau bod yr hyn a gynigir i fyfyrwyr yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon mor gynhwysfawr ag y mae yn Lloegr. Yng Nghymru, byddwn hefyd yn darparu cynnwys Cymraeg.

## Adran C – Ymateb y BBC i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor

### 1. Cyllid y BBC ar hyn o bryd ac yn y dyfodol

Cynlluniwyd rhaglen arbedion presennol y BBC *Delivering Quality First* i liniaru effaith rhewi ffi'r drwydded am bum mlynedd o Ebrill 2010 yn ogystal ag ysgwyddo cost cyfrifoldebau newydd. Roedd y cyfrifoldebau newydd hyn yn cynnwys cyllido'r rhan fwyaf o S4C, BBC World Service, band llydan a BBC Monitoring. Yn gyfan gwbl, mae angen i DQF arbed £700 miliwn yn flynyddol erbyn diwedd 2016-17.

Mae'r BBC yn ysgwyddo'r arbedion hyn drwy:

- wneud arbedion cynhyrchiant, er enghraifft, drwy symleiddio prosesau, lleihau niferoedd staff a chyflwyno ffyrdd newydd o weithio;
- lleihau sgôp ei gweithgareddau, er enghraifft, drwy leihau nifer y rhaglenni newydd a gomisiynir neu a brynir, a darparu llai o wasanaethau teledu 'botwm coch'; a
- cynyddu incwm masnachol drwy gynyddu nifer y rhaglenni a gynhyrchir sydd â gwerth masnachol uchel.

Fel y nodwyd gan y Swyddfa Archwilio Cenedlaethol yn ei asesiad o'r broses DQF, mae'r BBC eisoes yn gwneud llawer mwy am lai. Rydym wedi ysgwyddo £1.1 biliwn y flwyddyn o arbedion ers 2007 drwy gynlluniau effeithlonrwydd blaenorol ac rydym ar y gweill i ddarparu £1.5 biliwn y flwyddyn erbyn diwedd y cyfnod Siartr presennol.[9] Rydym o'r farn y gall y rhai sy'n talu Ffi'r Drwydded fod yn hyderus eu bod yn cael gwerth da gan sefydliad sydd wedi ymrwymo i ddarparu'r gorau ac i ddarparu gwerth am arian.

Yn ystod y pum mlynedd hyd at 2016/17, bydd BBC Cymru yn ysgwyddo arbedion o tua 15% i wireddu cynllun effeithlonrwydd *Delivering Quality First*. Yn ystod y cyfnod Siartr llawn hyd at 2016/17, bydd BBC Cymru wedi gwneud arbedion o £20m y flwyddyn (cyfanswm cronnol o tua £100m).

Er mwyn lleihau effaith y toriadau hyn ar gynulleidfaoedd, mae'r arbedion wedi canolbwyntio ar swyddi rheoli a'r costau o weithredu'r meysydd cefnogi. Erbyn 2016/17, bydd BBC Cymru wedi lleihau costau rheoli o £3.3m y flwyddyn, ac wedi gweld gostyngiad o 25-30% yng nghostau'r meysydd cefnogi (e.e. marchnata, cyllid, adnoddau dynol).

Serch hynny, gwelwyd arbedion hefyd yn y meysydd golygyddol, a gellir gweld effaith yr arbedion hynny isod.

---

9 http://downloads.bbc.co.uk/bbctrust/assets/files/pdf/review_report_research/reducing_costs/reducing_costs.pdf

*Tabl 8: Gwariant Rhaglenni BBC Cymru 2006/07 a 2014/15*[10]

| | 2006/07 | 2014/15 |
|---|---|---|
| | **£m** | **£m** |
| Teledu BBC Cymru | 24.6 | 20.8 |
| BBC Cymru ar S4C | 20.6 | 19.7 |
| BBC Radio Wales | 10.5 | 10.6 |
| BBC Radio Cymru | 9.6 | 10.0 |
| BBC Ar-lein | 4.1 | 3.9 |
| Cyfanswm gwasanaethau ar gyfer Cymru | 69.4 | 65.0 |
| Comisiynau Rhwydwaith | 55.0 | 59.1 |
| Cyfanswm | 124.4 | 124.1 |

## 2. Goblygiadau'r gostyngiad mewn rhaglenni teledu Saesneg

Mae'r gostyngiad mewn rhaglenni teledu Saesneg (h.y. rhaglenni *opts* sy'n benodol i Gymru ar BBC One a Two Wales) wedi bod yn destun cryn graffu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae'n adlewyrchu'r cyd-destun ariannol a nodir uchod. Mewn termau real, mae'r buddsoddiad mewn cynnwys wedi gostwng tua 30% ers 2006/07 o ganlyniad i sawl cynllun arbedion dros y degawd diwethaf.

*Tabl 9: Gwariant Rhaglenni BBC Cymru, Teledu Saesneg* [11]

| | 2006-7 | 2007-8 | 2008-9 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cost (£m) | 24.6 | 24.4 | 23.6 | 24.0 | 24.3 | 22.0 | 20.2 | 20.5 | 20.8 |

Er bod oriau darlledu wedi gostwng 20% yn ystod yr un cyfnod, mae'r effaith bosib ar gynulleidfaoedd wedi'i liniaru'n rhannol drwy nifer o gamau llwyddiannus gan BBC Cymru:

[10] Ffigurau Arolwg Blynyddol
[11] Ffigurau Arolwg Blynyddol

- cynnydd mewn amserlennu rhaglenni ar BBC One Wales, gan ddarparu cynulleidfaoedd uwch na BBC Two Wales
- cynyddu gwariant ar gyd-gomisiynau ar y sgrîn (e.e. *Hinterland* gyda S4C, All3Media a Tinopolis) ac *A Poet in New York* (cyd-gomisiynwyd gyda BBC Two)
- tymhorau mawr o raglenni sy'n creu mwy o effaith gyda chynulleidfaoedd (e.e. y tymor iechyd *Live Longer Wales* a chanmlwyddiant Dylan Thomas).

Yn 2014/15, cynhyrchodd BBC Cymru ychydig dros 600 awr o raglenni lleol gwreiddiol yn Saesneg. Rhaglenni newyddion a chwaraeon oedd tua 80% o'r cynnwys hwn.

***Tabl 10: Dadansoddiad genre o raglenni Teledu Saesneg BBC Cymru, 2014/15***

| GENRE | Oriau BBC 1 Wales | Oriau BBC 2 Wales | Cyfanswm Oriau Saesneg |
|---|---|---|---|
| **Newyddion** | 308.2 | 0.5 | 308.7 |
| **Materion Cyfoes** | 9.0 | 0.5 | 9.5 |
| **Celfyddydau a Cherddoriaeth** | 5.9 | 7.0 | 12.9 |
| **Comedi** | 1.5 | 0.0 | 1.5 |
| **Drama** | 2.1 | 0.0 | 2.1 |
| **Addysg** | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| **Adloniant** | 0.0 | 0.5 | 0.5 |
| **Ffeithiol** | 51.8 | 8.5 | 60.3 |
| **Gwleidyddiaeth** | 27.5 | 40.2 | 67.7 |
| **Chwaraeon** | 4.5 | 145.5 | 150.0 |
| **CYFANSWM** | **410.5** | **202.7** | **613.2** |

**3. Trefniadau presennol llywodraethu ac atebolrwydd darlledu yng Nghymru.**

Mater i Ymddiriedolaeth y BBC yw'r trefniadau llywodraethu, felly byddwn yn cadw ein sylwadau yn fyr ynglŷn ag effaith uniongyrchol y trefniadau gweithredol hyn ar Weithrediaeth y BBC, yn enwedig o ran Cyngor Cynulleidfa Cymru (CCC) sy'n cynghori Ymddiriedolaeth y BBC.

Crëwyd Cyngor Cynulleidfa Cymru (CCC) yn 2007 yn unol â darpariaethau Siartr bresennol y BBC, a daeth yn lle'r corff blaenorol, Cyngor Darlledu Cymru (CDC).

Gwelwyd fframwaith bresennol y Siartr yn rhoi pwerau o natur mwy ymgynghorol ar Gyngor Cynulleidfa Cymru o'i gymharu â Chyngor Darlledu Cymru. Rôl bresennol y Cyngor yw 'craffu ar berfformiad y BBC ar ran cynulleidfaoedd sy'n byw yng Nghymru, ac i gynghori'r Ymddiriedolaeth ar faterion sy'n berthnasol i gynulleidfaoedd a gwasanaethau'r BBC ar lefel Cymru'.

Mae'r Cyngor hefyd yn cynnal asesiad parhaus o raglenni a gwasanaethau'r BBC yng Nghymru a'r graddau y mae cynnwys rhwydwaith a gweithgareddau eraill y BBC yn adlewyrchu amrywiaeth y DU a'i chenhedloedd, rhanbarthau a chymunedau.

Ym mis Mawrth bob blwyddyn, mae tîm rheoli BBC Cymru yn darparu Arolwg Perfformiad Blynyddol i'r Cyngor o'i rhaglenni – lleol a rhwydwaith gan gynnwys rhaglenni'r BBC ar gyfer S4C.

Mae'r prif gyswllt arall rhwng Ymddiriedolaeth y BBC a BBC Cymru yn canolbwyntio ar y Trwyddedau Gwasanaeth sy'n cael eu dyfarnu i BBC Radio Cymru a Radio Wales.

Mae Trwyddedau Gwasanaeth y BBC, sy'n cael eu dyfarnu gan yr Ymddiriedolaeth, yn nodi beth sy'n ddisgwyliedig o'r gwasanaethau hynny a faint y gallant wario. Maen nhw'n gosod canllawiau golygyddol y BBC ac yn gwarchod annibyniaeth y BBC. Mae'r Ymddiriedolaeth yn monitro perfformiad i sicrhau bod y BBC yn darparu gwerth am arian tra'n gydnaws â'i phwrpasau cyhoeddus. Mae Adolygiad Gwasanaeth Ymddiriedolaeth y BBC o Radio Cymru a Radio Wales ar y gweill.

Gan edrych ymlaen, mae'n glir nad oes digon o hyder yn y strwythurau presennol, gyda diffyg eglurder ynglŷn â swyddogaethau Ymddiriedolaeth y BBC a Gweithrediaeth y BBC. Fel rhan o'i ymateb i'r Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon ar Adolygu'r Siartr, mae'r BBC wedi'i gwneud yn glir y dylai'r amcanion allweddol o ran llywodraethu a rheoleiddio llwyddiannus geisio[12]:

- diogelu annibyniaeth y BBC;
- cynnal buddiannau'r rhai sy'n talu ffi'r drwydded;
- galluogi'r BBC i barhau'n hynod ac yn berthnasol mewn byd sy'n newid mor gyflym;
- ystyried yn ofalus yr effaith ar y farchnad;
- sicrhau bod y BBC yn gweithredu er lles y cyhoedd gyda ffyrdd effeithiol o unioni'r cam os nad yw hynny'n digwydd;
- sicrhau bod yna wahanu rhwng llywodraethu a rheoleiddio corfforaethol.

Mae'r BBC felly yn gefnogol i'r syniad o symud tuag at greu Bwrdd unedol newydd, sy'n gwbl annibynnol o'r Llywodraeth. Canlyniad creu Bwrdd BBC unedol gyda'i Gadeirydd anweithredol ei hun, yw symud tuag at reoleiddio'r BBC yn allanol.

Rydym, wrth gwrs, yn glir y dylai unrhyw fodel llywodraethu'r BBC ymateb i amrywiaeth y DU, a bod rhaid i Fwrdd unedol newydd y BBC allu gwneud penderfyniadau er lles y rhai sy'n talu ffi'r drwydded ar draws y DU.

Bydd cynigion manwl ar gyfer llywodraethiant y BBC, gan gynnwys BBC Cymru, yn cael eu cyflwyno gan Weithrediaeth y BBC i'r adolygiad o lywodraethiant y BBC sydd ar y gweill, o dan arweiniad Syr David Clementi ar gyfer y DCMS.

---

[12] http://explore.gateway.bbc.co.uk/GatewayCMS01Live/pdf/BBC_Charter_Response_08102015.pdf, p.88

Gan edrych ymlaen, rydym yn disgwyl i gyllideb y BBC aros yn ddigyfnewid - *cash flat* - rhwng 2017/18 a 2021/22 (mewn gwirionedd, gostyngiad mewn termau real o 10%, yn dibynnu ar ragolygon chwyddiant). I gefnogi'r rhagolygon heriol, rydym yn argymell rhaglen radical o ddiwygio, sy'n cynnwys:

- cynyddu cystadleuaeth o ddwy ran o dair i 80% o sylfaen gostau'r BBC – un o'r gorau yn y sector gyhoeddus;
- cynllunio i arbed bron i 20% yn ystod y pum mlynedd nesaf, ar ôl arbed deugain y cant yn barod o'n sylfaen gostau yn ystod y cyfnod Siartr presennol – gyda lefelau uwch o arbedion effeithlonrwydd na'r sector gyhoeddus/llywodraeth;
- cael gorbenion i lai na 7%, o fewn y 25% uchaf o gwmnïau perifat sydd wedi'u rheoleiddio, ar ôl cyrraedd llai na 8% eleni;
- cynyddu ein helw masnachol cyffredinol yn ystod y pum mlynedd nesaf i £1.2biliwn cronnol, cynnydd o 15%, gyda Worldwide yn cael ei gadw fel rhan annatod o'r BBC.

Mae'n rhy gynnar i ddarogan sut bydd rhagolygon ariannol y BBC yn effeithio ar wariant BBC Cymru.

## 4. Sut mae buddiannau Cymru yn cael eu cynrychioli yn ystod y cyfnod adolygu

Mae'r broses Siartr hon yn cydnabod datblygiad Cymru fel cenedl ddatganoledig, ei buddiannau a'i diwylliant. Am y tro cyntaf ers 1927, mae yna nifer o gyfleoedd pwrpasol i sicrhau bod llais Cymru yn cael ei chlywed, yn ogystal â'r cenhedloedd eraill.

Y datblygiad allweddol yw'r Memorandwm o Ddealltwriaeth a gytunwyd rhwng y BBC, Llywodraeth Cymru a'r DCMS. Mae'r Memorandwm hwn yn darparu eglurder i'r tri pharti ynglyn â sut yr ymgynghorir â nhw yn ystod y broses Siartr.

Mae'r ymchwiliadau ar wahân sy'n cael eu harwain gan y Pwyllgor hwn, y Pwyllgor Seneddol ar Faterion Cymreig a Phwyllgor Cyfathrebu Tŷ'r Arglwyddi, i gyd yn ddatblygiadau i'w croesawu.

Yn ogystal â hynny, mae cynlluniau'r BBC a amlinellir yn y ddogfen *British, Bold, Creative*, yn cynnwys dau ymrwymiad pwysig, sef:

- Ymrwymiad i ymgynghori â llywodraethau cenedlaethol a rhanddeiliaid allweddol ynglŷn â darpariaeth gwasanaethau newyddion y BBC.
- Ymrwymiad i ymgynghori â llywodraethau cenedlaethol a rhanddeiliaid allweddol ynglŷn â chyllido gwasanaethau'r cenhedloedd.

Daeth ymgynghoriad Ymddiriedolaeth y BBC ar *British, Bold, Creative* i ben ar 5 Tachwedd.